**Tasg 2**

# Gwneud fideo

Mewn grŵp, rydych chi’n mynd i wneud fideo sy’n egluro sut i wneud rhywbeth. Rydych chi’n mynd i roi cyfarwyddiadau ac felly rhaid i chi ddefnyddio’r patrymau hyn:

| | |
|---|---|
| Rhaid i chi ... (+ treiglad meddal) | Rhaid i chi feddwl am ...<br>Rhaid i chi roi ...<br>Rhaid i chi gymysgu ... |
| Y ffurf orchmynnol (cofiwch y treiglad yn y gwrthrych os does dim **y** / **yr**): | |
| Rhowch y blawd mewn mwg. | Rhowch **f**lawd mewn mwg. |

1. Dilynwch y camau hyn:

Meddyliwch am syniadau gwahanol.
↓
Trafodwch y syniadau.
↓
Penderfynwch ar y syniad gorau.
↓
Penderfynwch sut byddwch chi’n cyflwyno’r syniad (ffilmio / cyflwyno / trosleisio?)
↓
Ysgrifennwch y sgript.
↓
Penderfynwch pwy sy’n mynd i wneud beth –
Cyflwyno? (fel troslais efallai)
Actio? / Egluro?
Ffilmio?
Golygu?
↓
Rhaid i chi ymarfer.
↓
Ffilmiwch.
↓
Golygwch os oes angen.

2. Gwyliwch fideos eich gilydd.

3. Trafodwch fideos eich gilydd, e.e.
    - beth yw'ch barn chi am y fideos
    - sut gallai grŵp wella ei fideo

    ac ati.

Cofiwch roi digon o resymau i genfogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.